# **10** Festri=r Plwyf [1]

Trinid holl faterion y plwyf mewn Festri, a elwir felly oherwydd mai yn festri’r eglwys yr arferid ymgynnull. Y mae cofnodion o gyfarfodydd y Festri o 1815 i 1825 ar gael yng nghyfrifon wardeniaid yr eglwys. Wele grynhodeb ohonynt os yn Saesneg, ond yn llawn os yn Gymraeg (gan eu bod yn gyffredin yn ysgrifennu fel y siaradent).

7 June, 1815. In order to lessen the annual expenses laid on the parish respecting the house rent of its paupers, it was decided to erect a few small houses for this purpose. The Rev. Henry Rowlands, the Rector, lent ,200 at 5% interest so that the houses could be built without delay.

13 Mehefin, 1815. Mewn Vestri a gynhaliwyd yn Llanbedr Newborough cytunwyd hefo Wm Thomas y felin Bach, Llangeinwen, fed iddo gymmeryd merch John Hughes i’w Bwydo a’i Dilladu a’i Lletteua, hyd nes y byddo yn Bedair at ddeg oed, am Bedair punt, sef Dwy Bunt yn bresenol a Dwy Bunt pan y delo yr Eneth yn Bedair at ddeg oed. Hefyd fod i’r cytundeb hwn ddiddymu y cytundeb a basiodd o’r blaen.

Yma rhoddir cyfrif o’r arian a Dalwyd gan Sion Jones Warden Llanbedr Newborough yn y flwyddyn 1815 a 1816, yn achos adeiladu Tai’r tlodion ar Lain y Bailiaid.

| 1815. | | | , | s | d |
|---|---|---|---|---|---|
| Hydref 9 | Talwyd am godi cerrig | | 37 | 12 | 2 |
| | “ | i’r Seiri Meini | 38 | 3 | 8 |
| | “ | i’r Llechwr am Doi | 12 | 6 | 0 |
| | “ | am gludo cerrig | 18 | 5 | 0 |
| /**94**/ | Talwyd am Lifio Coed | | 5 | 5 | 0 |
| | “ | i’r Saer Coed | 10 | 12 | 10½ |
| | “ | am Ais | 6 | 0 | 0 |
| | “ | i’r Gof am fariau a Bachau | 0 | 18 | 2 |
| | “ | am Hoelion | 1 | 18 | 6 |
| | “ | am Lechau Tai | 15 | 12 | 6 |
| | “ | am gludo’r Llechau ar Coed dros Abermenai | 2 | 18 | 6 |
| | “ | i Owen Owens am gludo Clai | 3 | 10 | 0 |
| | “ | am Galch | 5 | 15 | 0 |
| | “ | i’r Gwydyr-wr | 3 | 4 | 0 |

1 Gellir dibynnu ar gofnodion y Festri, gan fod eu cywirdeb yn cael ei gadarnhau yn y cyfarfodydd dilynol.



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| “ | am GIudo caIch | 2 | 13 | 0 |
| “ | am gynorthwyo’r Llechwr | 0 | 3 | 0 |
| “ | i William Thomas am Gludo Coed | 0 | 3 | 0 |
| “ | i John Morris am yr unrhyw | 0 | 3 | 0 |
| “ | i John Jones am Gludo Llechau | 0 | 7 | 0 |
| “ | am Lestr i GIudo Dwfr | 0 | 1 | 0 |
| “ | am Gludo Dwfr | 0 | 1 | 0 |
| “ | am Danau Morhesg | 0 | 1 | 7 |
| “ | am Dori sylfaen | 0 | 2 | 0 |
| “ | am Hoelion Ais | 0 | 4 | 4 |
| “ | i John Jones arwydd y Geinach | 0 | 9 | 0 |
| “ | i Richd Solomon am fesur y gwaith | 0 | 6 | 0 |
| “ | am nol Barrau y Drysau | 0 | 0 | 4 |
| “ | am Ddyrnau Drysau | 0 | 7 | 0 |
| “ | am fenthyg Berfau | 0 | 1 | 0 |
| “ | i Samuel Roberts am Gludo Cerrig | 1 | 1 | 0 |
| “ | i Hugh Owen am Gludo Cerrig | 0 | 15 | 0 |
| “ | i Richard Abraham | 0 | 13 | 0 |
| “ | am nol Ais a Gro | 0 | 4 | 6 |
| “ | i Owen Owen am Lain y Bailiaid | 0 | 11 | 0 |
| “ | am Gwrw y Diwrnod Mesur | 0 | 6 | 0 |
| “ | i John Morris am Gludo Coed | 0 | 4 | 0 |
| “ | i Robert Morris am Gludo Llechau | 0 | 18 | 0 |
| “ | am Crop Llain y Bailiaid | 0 | 14 | 0 |
| “ | am gael Dwfr or Pydew | 0 | 5 | 0 |
| “ | am Symud Ffenestr yr Ysgoldy | 0 | 12 | 0 |
| “ | i Hugh Owen am Gludo Llechau | 0 | 6 | 0 |
| “ | i Robert Roberts am Lawrio y Tai | 0 | 7 | 0 |
| “ | i John Morris am Nol Llechau | 0 | 3 | 0 |
| “ | i William Thomas amNol Llechau | 0 | 3 | 0 |
| “ | i Hugh Owen am Gludo Cerrig i wnaethyr Gwal | 0 | 18 | 4 |
| “ | am Wair i Owen Jones | 0 | 3 | 0 |
| “ | i Howel Dafydd am weithio Gwal | 0 | 10 | 0 |
| “ | i Thos. Prichard Owen am godi cerrig a gwaithio | 0 | 17 | 7½ /**95**/ |
| Talwyd | i John Abraham am Nol Llechau | 0 | 3 | 0 |
| “ | I Hugh Williams | 0 | 1 | 0 |
| “ | am Lechau | 5 | 5 | 0 |
| “ | am Le i godi cerrig yn nhir y Captn. Griffith | 1 | 10 | 0 |
| “ | am le i godi cerrig yn nhir | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Thomas Lewis | 1 | 10 | 0 |
| “ | i Hugh Hughes am wneuthyr muriau’r Ysgoldy | 0 | 6 | 10 |
| “ | am Godi Muriau’r Ysgoldy | 42 | 8 | 8½ |
| “ | am hoelion, etc., i John Prichard | 0 | 6 | 2½ |
| “ | i Hugh Hughes am 48 diwrnod o waith yn ol 2/6 y Dydd | 0 | 11 | 3 |
| “ | i William Williams y Teiliwr an Drespas ei Lain | 0 | 7 | 0 |
| “ | am Fesur gwaith y Llechwr | 0 | 2 | 6 |
| “ | am gadw Porth Llain y Bailiaid | 0 | 2 | 0 |
| “ | i Robert Roberts am Balmanty | 0 | 4 | 6 |
| “ | am Lyfr a phapur | 0 | 0 | 8 |
| “ | am Ysgrifenu y Cyfrifon | 0 | 2 | 0 |
| “ | am Tiwrnau ar gost i olygu’r gwaith | 5 | 0 | 0 |
| Swm a dalwyd | | £233 | 13 | 11 |

Awst 13eg, 1821. Y Cynhaliwyd Cyfarfod Vestry yn Eglwys P. Niwbwrch i’r diben i brisio yr Plwy, ir diben i wastathau Treth y Plwy. Ac ir Personau canlynol i Hugh Williams Frondeg William Griffith pendre Samol Roberts plas Thomas Hughes rhedyncoch Rhobert Jones Tyny graig i Gud gyfarfod a William Jones y Nant i gario yr Gwaith hwn ym mlaun. Medi 4ydd 1821. Cynhaliwyd cyfarfod Festri yn Eglwus Nuwbwrch yn yr hon Festri y Cudunwud ar y Settlement hwn i godi Treth Tylodion.

10 Oct. 1821. Two impartial persons to adjust and equalise the poor rate of the parish.

1 Nov. 1821. The inhabitants and parishioners appointed the following eight persons to do the assessing: H. Rowlands *Rector* John Jones Ty Newydd Samuel Roberts Plas Owen Thomas Carreg’r Eithin John Humphreys Owen Owens House John Jones the Hare Richard Solomon Thomas Hughes Rhedyn Coch.

29 May 1822. A valuation of all tithes, lands, rabbit warrens and cottages in the parish for the equalisation of the Poor rate to be made by Richard Lewis of Bodowen and Owen Roberts of Bwlan. The fee charged for this work was ,18/18/0.

Cyn pasio Deddf *Commutation of Tithes* (1836), cymerai rheithor y plwyf feddiant o’r ddegfed ran o gynnyrch y tir a gwerthid y degwm hwn ar ocsiwn. Dywedir y byddai person Niwbwrch yn rhoddi cinio mawr ymlaen llaw i’r prynwyr. Yn aml, tlodion heb fawr o dir fyddai y rhain, ac yn prynu ymborth ar gyfer y gaeaf i’w buchod,





AN ACCOUNT OF MONEY RECEIVED FOR NEWBOROUGH TYTHE BY EV. EVANS, 7TH DAY OF JULY, 1823.

| No. | Parcels | Tenants names | Sums set at in 1822 | Sums recd. by Rev. Mr Henry Rowlands | Sums recd. by Ev. Evans 7 July 1823 | Arrears |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rallt | Richard Parry of Newborough | ,50 | ,75 | ,31 - 0s - 0d | ,44 -0s - 0d |
| 2 | Brynhawydd | A | | | | |
| 3 | Cerrigmawr | A | | | | |
| 4 | Cefnmawr | Evan Thomas | ,36 | ,18 | ,18 - 0s - 0d | - |
| 5 | Cerrigy-gwydd | A | | | | |
| 6 | Frondeg | Hugh Williams set for ,17-10/- | ,18 | , 9 | , 8 - 15s - 0d | , 0 - 5s- 0d |
| 7 | Small Tythes | Richard Parry | ,13 | - | - | ,13 -0s- 0d |
| | | Total | ,271[2] | | ,57 - 15s - 0d | ,57 -5s- 0d |

2 Camgymeriad - ,117 ddylai fod.

7th July 1823 received of Evan Evans fifty seven pounds and fifteen shillings.
‚57/15/- Richard Solomon.

| | | | £ | s | d. |
|---|---|---|---|---|---|
| Rallt | sett to | Thomas Jones of Plasnewydd for | 40 | 10 | 0 |
| Cerrigygwydd | “ | John Williams, Coedlan[3] | 41 | 0 | 0 |
| Bryn Hawydd | “ | John Prichard, Pentrebuch[4] | 35 | 1 | 0 |
| Cefn Mawr | “ | John Foulkes, Rhosyraur | 32 | 0 | 0 |
| Gerrigmawr | “ | John Prichard, Pendrebach | 42 | 1 | 0 |
| Frondeg | “ | Hugh Williams, Frondeg | 18 | 0 | 0 |
| Small Tythes | “ | Evan Williams, Frondeg | 13 | 0 | 0 |
| | | | (No Earnest ) | | |

/**97**/Yn ôl y cyfrif ariannol uchod gwelir fod Richard Parry mewn cryn ddyled i’r Parch. Henry Rowlands, a rybuddiodd Evan Evans, gwerthwr y degwm, nad oedd i osod degwm wedyn i Richard Parry. Gwysiwyd Parry gan y Rheithor, a chyfaddefodd ei ddyled ac addawodd dalu pob dimau.

NEWBOROUGH PARISH POOR RATE ASSESSMENTS.

An assessment for the necessary relief of the poor & for the other purposes in the several acts of parliament mentioned relating to the poor for the parish of Llanbedr Newborough in the County of Anglesey being the seventh & eighth rate of sixpence in the pound for the present year 1825 Jany 1st.

Thomas Jones Cefn buchan
Evan Roberts, Erw Goch *Churchwardens.*

| | ‚ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Rev. Mr. Rowlands for Tythe | 5 | 3 | 0 |
| Hugh Williams Frondeg | 1 | 10 | 3 |
| Evan Williams Frondeg | 1 | 10 | 3 |
| Ow. Williams Yr Efal Newydd | 0 | 3 | 0 |
| Wm. Williams Y Siop Siarp | 0 | 2 | 0 |
| Francis Owen Tafarnbridd | 0 | 2 | 2 |
| Richd Pierce Cefn Mawr issaf | 1 | 7 | 6 |
| Richd. Abraham Cefn Mawr uchaf | 1 | 8 | 6 |
| John Roberts Tyddyn pwrpas | 0 | 12 | 0 |
| Mary Prichard Tyn rhos | 0 | 4 | 0 |
| John Williams Tyn mwdwal | 0 | 4 | 8 |
| Morris Jones y caua brychion | 0 | 12 | 0 |
| Percy Lewis Dros Caergors | 0 | 2 | 3 |

3 h.y. Goetan; gweler tud 126.
4 Camgymeriad am “Pendrebach.”



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| John Jones Tafarn Tywysog | | | | | 0 | 2 | 3 |
| Elizth Rowlands Glanrhos | | | | | 0 | 0 | 6 |
| Jane Daniel Neuoedd wen | | | | | 0 | 3 | 0 |
| John Prichard Pendre bach | | | | | 0 | 2 | 0 |
| Evan Roberts Erw coch | | | | | 0 | 8 | 6 |
| Robert Prichard cerrigygwydd | | | | | 0 | 2 | 0 |
| Thomas Jones Tyddyn percyn | | | | | 0 | 3 | 3 |
| Mr. J. Griffith Clynnog | | | | | 1 | 2 | 0 |
| Wm. Griffith Pendref | | | | | 1 | 10 | 6 |
| Hugh Owen Glascoed | | | | | 0 | 17 | 0 |
| | £ | s. | d | | | | |
| John Jones Tyn | | 5 | 0 | | | | |
| Tir bodvel | | 8 | 0 | | | | |
| Llanfawr | | 2 | 0 | | | | |
| Ffynnon wen (half ) | | 3 | 3 | | | 18 | 3 |
| | | | | | | | |
| Catherine Paul Nythygog | | | | | | 1 | 4 |
| Francis Jones Penygongl | | | | | | 2 | 0 /**98**/ |
| John Prichard Gorphwysfa | | 2 | 0 | | | | |
| Talylan | | 9 | 0 | | | | |
| Tyddyn y fawd | | 5 | 4 | | | 16 | 4 |
| | | | | | | | |
| Hugh Jones y Shiop isaf Ty Mawr | | | | | 0 | 2 | 0 |
| Owen Thomas Cae Grin | | | | | 0 | 3 | 3 |
| Owen Owens Tynypydew | | | | | 0 | 2 | 0 |
| Wm. Thomas Brynsinge | | | | | 0 | 7 | 6 |
| Owen Evans Hendre | | | 10 | 0 | | | |
| | | | | | | | |
| Ar Sein fawr | | | 8 | 0 | 0 | 18 | 0 |
| | | | | | | | |
| Wm. Evans Ty Main | | | | | 0 | 12 | 9 |
| Thomas Roberts Glynteg | | | | | 0 | 14 | 0 |
| Richd. Jones Bryniau | | | | | 1 | 4 | 0 |
| Thomas Prichard Cerrigmawr | | | | | 0 | 8 | 4 |
| Gaynor Jones Melinfrwyd | | | | | 0 | 5 | 9 |
| Owen Griffith Bryn Madog | | | | | 0 | 3 | 3 |
| John Jones Bryn Madog | | | | | 0 | 2 | 6 |
| John Roberts Ty Mawr | | | | | 0 | 5 | 0 |
| Hugh Owen Tynycoed | | | | | 0 | 14 | 0 |
| John Owen Yr Offt | | | | | 0 | 2 | 0 |
| Thomas Jones Cefn buchan | | | | | | 10 | 0 |
| Ar Ffynnon wen | | | | | | 3 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 0 | 13 | 3 |
| Margt. Owen Tynywaen | 0 | 1 | 9 |
| John Jones Tyddyn buchan | 0 | 3 | 0 |
| John Williams Glanytraeth | 0 | 6 | 6 |
| Rich. Williams Clogwyn | 0 | 2 | 4 |
| Thom. Hughes Rhedyn Coch | | 14 | 0 |
| Caullidiart | | 8 | 0 |
| | 1 | 2 | 0 |
| Rowland Hughes Rhedyn Coch bach | 0 | 2 | 0 |
| Samuel Roberts y plas | 0 | 13 | 0 |
| Thomas Jones Gwninger | | 18 | 0 |
| Bryn howydd | | 5 | 0 |
| | 1 | 3 | 0 |
| Owen Owens Rhows | 0 | 10 | 10 |
| Wm. Thomas Llwyn ysgaw | 0 | 10 | 0 |
| llain y capel isaf | 0 | 1 | 6 |
| Wm. Griffith Plas pedewa | 0 | 7 | 6 |
| Ow. Roberts & Wm. Owens | | | |
| Dros Tanyrallt | 1 | 1 | 6 |
| Hugh Evans Plas ( ? Coed ) ana | 0 | 3 | 6 |
| Mary Evans Siamber newydd | 0 | 14 | 0 /**99**/ |
| Owen Thomas Tynyrardd | 0 | 1 | 4 |
| John Owen Tynlon penybryn | | | |
| and bryn howydd | 0 | 5 | 6 |
| Owen Hughes Dywad es | 0 | 4 | 9 |
| Robert Morris House | | 2 | 0 |
| Mill | | 7 | 0 |
| Brynhowydd | | 5 | 0 |
| Llainsiencin | | 2 | 0 |
| | 0 | 16 | 0 |
| Hugh Jones Tynycae | 0 | 5 | 0 |
| Evan Thomas Tynycoed | 0 | 4 | 0 |
| Evan Wms. Tynllidi art | | 1 | 6 |
| Carregyreithin | | 1 | 9 |
| | 0 | 3 | 3 |
| Owen Roberts Tir Mawr | 0 | 2 | 6 |
| Ann (?) Wms. Tyddynygraig | 0 | 2 | 6 |
| Ow. Hughes Fotty Matthew | 0 | 4 | 0 |
| Thos. Hughes Tyddyn bach | | 4 | 6 |
| Hendai | | 1 | 0 |
| | 0 | 5 | 6 |
| Robt. Jones Gwynhinger bach | | 9 | 0 |
| Tyddyn yr oerfel | | 3 | 0 |



| | | | |
|---|---|---|---|
| | 0 | 12 | 0 |
| John Jones Galltyrhedyn | | 2 | 6 |
| Tir Captain | | 5 | 6 |
| | 0 | 8 | 0 |
| Margt. Williams Coetan | 0 | 4 | 3 |
| Richd. Rowland Cauychain | 0 | 2 | 4 |
| Rob. Jones Tan y gerrig | 0 | 5 | 6 |
| David Roberts Maesyceirchdir | 0 | 15 | 0 |
| John Jones Tyddyn | ,1 | 0 | 6 |
| Tir forgan | | 7 | 0 |
| | 1 | 7 | 6 |
| Nathaniel Morris Hendre fawr | 0 | 3 | 9 |
| Hugh Jones Hendre bach | 0 | 3 | 6 |
| John Williams Abermenai | 0 | 2 | 0 |
| Tylodion Trefdraeth | 0 | 2 | 0 |
| John Roberts Hen Shop | 0 | 1 | 3 |
| Wm. Williams, Hen Shop | 0 | 1 | 3 |
| Rob. Roberts llam carreg yr Eglwys | 0 | 2 | 0 |
| John Thomas Glogwyn | 0 | 2 | 4 |
| Wm Jones Tyddyn plwm | 0 | 3 | 0 |
| Eliz. Jones Erw wen | 0 | 1 | 0 |
| | £41 | 1 | 0 |

/**100**/Anglesey to wit: We the undersigned being two of his Majesty's Justices of the peace in and for the said county having examined the foregoing assessment do consent unto and allow. Witness our hands this 3rd day of January, 1825.
O. G. Williams.
Jno. Price.

NEWBOROUGH PARISH - ORDER OF VESTRY - 24 JANY 1825.

It is ordered that the Rev. Mr. Henry Rowland the Rector of this Parish's Poor Rate in respect of the Tythes of the said parish be in future assessed at ,4 11 6 instead of the sum of Five pounds and three shillings the former rate.

NEWBORO' TYTHE SETTINGS 5 JULY, 1825.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rallt | Sett to | Evans Roberts for | ,50 - 10 - 0 | (1d. earnest). |
| Cerriggwydd | " | Mr.Griffith of Clynnog for | ,60 | (l d. earnest). |
| Bryn Hawydd | " | Wm Thomas Ty Lawr for | ,40 | (1d. earnest). |
| Cefn Mawr | " | W. Pierce Taihirion for | ,37 | |
| Cerrig Mawr | " | John Prichard &Thomas Jones of Cefn buchan for | ,48 -10 - 0 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Frondeg | “ | Hugh Williams Frondeg for | ,25 | (6d.) |
| Small Tythes | “ | Thomas Jones for | ,15 -10 - 0 | (6d.) |

Yr oedd talu y ddegfed ran o gynnyrch y tir a’r anifeiliaid wedi achosi llawer helynt a thwrw rhwng talwr a derbyniwr y degwm yn y gorffennol, yn gymaint felly fel y bu i lawer plwyf neu unigolion drefnu yn raddol gyda pherchenogion y degwm i dalu swm o arian yn lle degwm o’u cynnyrch.

Ond yn 1836 pasiwyd y *Tithe Commutation Act*, ac yn ôl honno yr oedd y degymau amaethyddol i *gyd* i gael eu cyfnewid i daliadau mewn arian. I wneud y cyfnewid, cafwyd gwybod gyfartaledd gwerth ariannol y degymau ymhob plwyf am y saith mlynedd blaenorol, a rhannwyd hwnnw i dair than gyfartal. Yna gwnaed ymchwiliad, sawl pwysel o bob un o’r tri phrif íd - gwenith, haidd a cheirch - fuasai pob un o’r tair rhan gyfartal yn eu prynu yn ôl cyfartaledd prisiau y saith mlynedd diwethaf. Y nifer hwnnw o bwyseli o bob un o’r tri íd oedd i fod yn ddegwm am bob blwyddyn yn y dyfodol.

Yr oedd prisiau yr íd i fod yn gyfartaledd prisiau y saith mlynedd blaenorol, a’r cyfartaledd prisiau hyn yn 1835 oedd:

| | *s.* | *d.* | |
|---|---|---|---|
| Gwenith | 7 | 0 | y bwysel |
| Haidd | 3 | 11**2** | “ |
| Ceirch | 2 | 9 | “ |

Felly, yr oedd pob ,100 o ddegwm yn cael eu cynrychioli gan

95 pwysel o wenith
168 pwysel o haidd
242 pwysel o geirch.

Un rheswm am y trefniant hwn oedd oherwydd credid bod gwerth íd yn llai agored i newid na gwerth arian, a hefyd am mai cynnyrch y tir oedd íd yn hytrach nag arian.

/**101**/Ymddengys yn ôl y Rhagarweiniad i’r *Tithe Commutation Map Survey* (1845) mai maint holl diroedd y plwyf oedd 4150 acer, sef 172 acer o dir âr, 1453 acer o weirgloddiau a thir pori, 1268 acer o dir tywod, a 257 acer yn ffyrdd a thir wast. Cyfanwm degwm y plwyf oedd ,260, sef ,250 i’r Rheithor a ,10 i Glerc y Plwyf.

Mae *Llyfr* Cofnodion Festri’r Plwyf, o 1845 ymlaen, ar gael. Er mai yn festri’r eglwys yr arferid ymgynnull yn flaenorol, cynhelid y cyfarfod yn aml mewn adeiladau eraill, er enghraifft, Tyddyn-pwrpas (1847), Ysgoldy (1853), Pen-y-gong1 (1857), Hen-blas (1859), Arwydd-yr-ysgyfarnog neu “Sign-hare” (1864), “ ‘Rhouse Relieving” neu “Pay Station” (1865, 1866, 1868, 1873), “British School” (1870,



1872, 1874, 1877), “School Chapel” (1875), Malltraeth Street (1876), a’r “Board Schol” o 1879 ymlaen.

Dechreuwyd cyfarfod weithiau am 9 neu 10 yn y bore. Person y plwyf, yn rhinwedd ei swydd, ydoedd cadeirydd y Festri yn y cyfarfod blynyddol bob mis Mawrth, pan benodid y swyddogion plwyfol wardeniaid yr eglwys,[5] arolygwyr y tlodion (*overseers*),[6] goruchwylwyr y ffyrdd,[7] gwarcheidwad y tlodion a chwnstabliaid y plwyf.[8] /**102**/Ceir rhestr o enwau’r swyddogion hyn o 1845 i 1894 ar ddiwedd y bennod hon. Meddai pawb a dalai dreth y tlodion yr hawl i ddyfod i’r cyfarfod a thraethu ei farn.

Fel y crybwyllwyd eisoes, y Festri oedd yn gyfrifol am y ffyrdd ac am y tlodion, a thelid cyflog i dreth-gasglydd. Yr oedd gofalu am ffyrdd y wlad yn gorffwys ar y gwahanol blwyfi, ond parhau yn gyndyn a wnâi llawer o’r plwyfi i gyfrannu tuag atynt. Symudwyd un hen arfer ynglín â’r ffyrdd yn 1835, sef y *Statute of Labour*. Ni allai neb wneuthur ffordd ar ôl y flwyddyn honno o’i ben a’i bastwn ei hun, ac yna gwneuthur y plwyf yn gyfrifol am dani. Yn lle gweithio ar y ffordd yn eu hamser eu hunain a pheidio â thalu treth tuag ati, fel o’r blaen, yr oedd yr amaethwyr i dalu treth a chael tâl am eu gwaith.[9]

5 Yr oedd prif ddyletswyddau wardeniaid yr eglwys yn naturiol yn gysylltiedig â’r eglwys; cadwent agoriad y gist dderw fawr y cedwid “trysorau” yr eglwys ynddi; hwy fyddai yn gosod treth yr eglwys ar y plwyfolion. Edrychent ar ôl yr adgyweiriadau i’r eglwys, y cwbl ond y gangell a oedd yn eiddo’r Rheithor. Yn ychwanegol yr oeddynt i roddi adroddiad i’r archddeacon a’r esgob am foesau y plwyfolion ac am eu presenoldeb yn yr eglwys; hefyd, os byddai angen, ar ymddygiad y rheithor a’i gurad.

6 Swydd ddi-dâl oedd eiddo goruchwylwyr y tlodion. Penodid yn gyffredin ddau, ynghyda’r wardeniaid eglwysig, i weithredu am flwyddyn. Eu dyletswydd cyntaf oedd casglu treth y tlodion, ac unwaith yn y mis o leiaf, ar brydnawn Sul, ar ôl y gwasanaeth, yr oeddynt i gyfarfod yn yr eglwys a gweled bod y tlodion yn cael cymorth. Yn ôl yr *Elizabethan Poor Law* (1601) yr oedd plant nad allai eu rhieni eu cadw, i’w gosod i weithio a hwyrach eu prentisio i ryw grefft, y bechgyn nes y byddent yn 24 a’r genethod yn 21 oed. Rhoddwyd gwaith hefyd i oedolion os byddent heb waith cyson. Yr oedd pawb analluog i weithio - y clôff, yr hen, y dall - i gael cymorth plwyf. Nid oedd y diogyn iach i’w gael, a chwipid yn gyhoeddus unrhyw un a ddelid yn cardota.

7 O’r Oesoedd Canol dyletswydd pob dyn oedd cynorthwyo gydag adgyweirio ffyrdd y faenor lle’r oedd yn byw. Yn ôl Deddf basiwyd yn 1555 yr oedd pob plwyf i benodi; un o’r plwyfolion i weled fod pobl y plwyf yn gwneud y gwaith yn iawn. I’r sawl a feddai dir gwerth tua ,50 y flwyddyn, yr oedd yn angenrheidiol iddo anfon trol a cheffylau neu ychen a dau ddyn gydag arfau. Mynd eu hunain oedd raid i bobl eraill. Penderfynai y *surveyor* - swyddog di-dâ1 - pa amser yr oedd y bobl i roddi eu chwe diwmod o waith bob blwyddyn, a chyhoeddai hynny yn yr eglwys ar y Sul.

8 Yn y dydd yr oedd ef ei bun i godi’r “hue-and-cry” ar ôl lladron a chymeriadau amheus eraill, a phan ddigwyddai hynny gorfodid pob dyn rhwng 16 a 60 oed i adael ei waith a myned ar ôl y drwgweithredwr hyd at derfyn y plwyf. Rhaid oedd i’r cwnstabl gymryd i’r ddalfa bobl amheus eu cymeriad a dod â hwy ger bron Ustus Heddwch; hefyd, gwyliai y tai cwrw a dirwyid unrhyw dafarnwr a roddei fesur byr i’r “sychedig rai.” Am arfer iaith anweddus dirwyid y cyfryw un 12d. bob tro, neu ei osod yn y *stocks* am deirawr. Os byddai’r ffermwyr yn fyr o ddynion adeg cynhaeaf, gallai ef orfodi crefftwyr i adael eu gwaith ac i gynorthwyo gyda’r cnydau. Hefyd rhaid fyddai i’r cwnstabl roddi ei bresenoldeb yn y *Quarter Sessions* ym Miwmares. Nid syn fod llawer cwnstabl yn rhoddi ochenaid o ryddhad pan ddeuai blwyddyn ei swydd i ben.

9 *Hanes Mon*, gan E.A.W., tud. 98.

Ceisiodd yr ynadon fwy nag unwaith ddwyn Deddfau Ffordd Fawr (*Highway Acts*) 1864 a 1866 i rym, ond ofnid y codiad yn y trethi a fyddai'n sicr o ddilyn a phleidleisiodd y plwyfi yn erbyn y mudiad. Protestio a ddarfu Niwbwrch yn 1862, cyn i'r mesur gael ei basio yn y Senedd. Cwynai'r ustusiaid o herwydd bod gwaliau, a hyd yn oed dai, yn cael eu codi ar ymyl y ffyrdd nes peri bod y rheini'n llawer culach nag y buont.

Cedwid cofnodion Festri plwyf Niwbwrch mewn llyfr trwchus 12**2**" [301cm] wrth 8" [200cm], wedi ei gaeadu mewn byrddau ac yng nghadwraeth clerc Cyngor Plwyf Niwbwrch y mae ar hyn o bryd. Yn un pen i'r llyfr, ar y tudalen cyntaf, ceir mewn llawysgrif eithriadol ddestlus :

NEWBOROUGH
VESTRY AND ACCOUNT - BOOK
1845
WM. L. ELLIS.

Ar y tudalen dilynol ymddengys y nodyn hwn wedi ei ysgrifennu mewn pensil blwm:

"It appears from a Vestry Book with a red cover in the possession of John Jones Bryniau this 1lth day of June 1821(?) that Humphrey Humphreys had the sum of **,**50 - 2s - 6d. of arrears to collect from Samuel Jones' account his predecessor in office whereas he accounts in this Book for only **,**32 - 0s. l**2**d.

D. Jeffreys
Rector."

Hyd yn awr methwyd a chael dim o hanes y "Llyfr Coch" hwn.

Ond i ddychwelyd at y llyfr cofnodion *sydd* gennym. Ynddo ceir manylion am yr arian a dderbyniwyd ac a wariwyd o 1845 i 1854. Dipyn yn flêr y cedwid y cyfrifon hyn, oherwydd penderfynwyd cael archwiliad llwyr arnynt, fel y dengys y penderfyniad a ganlyn:-/**103**/

"NIWBWRCH I8FED TACHWEDD 1853.

Yr ydym ni sydd a'n henwau isod yn ymrwymo yn y wedd ganlynol, sef bod i dri o bersonau gael eu dewis i chwilio i fewn i'n cyfrifon tra yn swyddogion y plwyf uchod, sef ein derbyniadau a'n taliadau o bob natur, gyda golwg ar ddwyn i'r amlwg a phenderfynu ein gwir sefyllfa rhyngom a'r plwyf, ac hefyd bod i'r tri wyr berffaith hawl i edrych chwilio a phenderfynu cyfrif pob *Overseer* neu *Acting Overseer* dilynol i ni hyd y dyddiad presenol os barnant hynny yn angenrheidiol er dwyn gwir sefyllfa y plwyf i eglurdeb ac iawn drefn. Y tri wyr a ddewisir genym a chan y Plwyf ydynt y rhai canlynol Mr. Thomas Owen Tynypwll, Mr. R. A. Pierce Ysgoldy a Wm.



L. Ellis Bryntirion. Yr ydym hefyd yn ymrwymo i foddloni ar benderfyniad y tri wír uchod, a pha beth bynag a welont yn gyfiawn i ni dderbyn o'r plwyf neu dalu i'r plwyf byddwn *dawel didwrw a boddlon*. Yr ydym yn barod i roddi pob gwybodaeth a hysbysrwydd yn ein gallu i'r beirniaid a nodwyd, ac na bydd i'r naill na'r llall o honom ar hyn wneyd un math o edliwiad na chyfeiriad câs at yr un o'r tri a nodwyd gyda golwg ar ddim a benderfynont ar y matter cyfrifawl hwn, golygwn y farn a roddir, yn farn y tri ac nid un.

Arwyddwn ein boddlonrwydd i'r oll a ysgrifenwyd uchod trwy arddodi ein henwau y dydd a nodwyd o'r blaen, gyda dweyd fod tal y tri wír am eu llafur i fod yr un faint bob un, sef bod i Rd. Jones dalu i R. A. Pierce ac Owen Roberts i Wm. L. Ellis yr un swm ag a delir gan y plwyf i Thos. Owen. Mae y cytundeb hwn i'w gadw gan y Parch. D. Jeffreys, Periglor y Plwyf.

*Arwyddwyd* Owen Roberts
Richard Jones
William Jones
Rowland Williams
Henry Lewis
Henry Morris
Robert Hughes."

Diweddodd y tri wír eu hadroddiad o'r archwiliad fel hyn:

"A wado *hwn*, aed a hi, -
A gwaded i'r Haul godi.[10]
Medd Wm.
Lewis Ellis
Robt. A. Pierce
Thomas Owen

Rhag. laf, 1853
6 o'r gloch y bore !!!"

Ymddengys na dderbyniwyd yr adroddiad yn hollol "dawel, didwrw a boddlawn," yn ô1 hanes cyfarfod nesaf y Festri./**104**/

"NOS SADWRN Y 10FED RHAGFYR 1853.

Yngwyneb fod rhai o'r pleidiau sydd yn dwyn cyssylltiad a'r cyfrifon yn grwgnach yn erbyn eu tynged; Gwrandawsom yr *oll* oedd ganddynt i'w ddywedyd, a gwnaethom ail ymchwiliad er terfynu y gwrth (dd) adleuon; Ond er y cyfan nis gallwn gyfnewid yr un *Iota* o'n penderfyniadau blaenorol. Gan nad oedd genym yr

10 *Blodau Arfon*, gan Dewi Wyn o Eifion (Caerlleon: 1842) tud. 177

holl gyfrifon yn hysbys i ni ar y pryd hwnw yr ydym yn gweled yn angenrheidiol ychwanegu atynt yn y modd canlynol ...

‘YR HYN A YSGRIFENWYD A YSGRIFENWYD.’

Gellir tybied mai blerwch ac esgeulustra oherwydd anwybodaeth a diffyg profiad o gadw cyfrifon ariannol, ac nid anonestrwydd, oedd yr achos am fethu mantoli y cyfrifon. Ar ôl hyn, ni cheir cwyn o fath yn y byd yn y cofnodion am gywirdeb yr “accounts.”

Peth cyffredin yn llys yr ynadon ydoedd cyfraith rhwng dau blwyf ynghylch plwyfo tlodion neilltuol oherwydd, yn ôl yr *Elizabethan Poor Law Act* (1600), plwyf *genedigol* y tlotyn oedd yn gyfrifol am ei gadw rhag angen; felly, cyn gynted ag y byddai tlotyn yn ceisio elusen o’r plwyf, gyrrid ef yn ddiymdroi i’w blwyf genedigol. Parhaodd y diffyg hwn ar ôl rhannu Môn yn Undebau yn ôl Deddf Newydd y Tlodion (1834). Weithiau, ceir i’r Festri dalu cludiad tlodion i rai o drefi Lloegr, a hyd yn oed i’w cynorthwyo i ymuno a’u perthnasau yn yr America. Cawn mai oddeutu 2s. 6d. yr wythnos a gyfrennid yn gyffredin i’r tlodion a dderbyniai elusen.

Dyfynnir y manylion canlynol o’r cyfrifon ariannol o 1845 i 1848, er mwyn dangos amrywiol ddyletswyddau’r Festri:

DURING THE YEAR ENDING 25 MARCH, 1846.

Total paid to Thos. Bell Gibbons Esqr. Treasurer of the Union

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | , 367 | 13 | 4 |
| Total paid | County Rates | 15 | 9 | 72 |
| Rents for 1845 | | | | |
| 24 May | Paid W. Lloyd Roberts, Esq. for Catherine Jones | 2 | 10 | 0 |
| 1 Nov. | “ John Jones for David Owen | 1 | 10 | 0 |
| 27 Dec. | “ John Jones for Mary Rowlands | 1 | 6 | 0 |
| 28 Dec. | “ Wm. Rowlands for Elizth. Williams & others | 3 | 6 | 0 |
| 13 Jan. | “ Evan Roberts for Eliz. Jones & Mary Rowlands | 2 | 10 | 0 |
| 14 Feb. | “ Robert Williams for Elin Hughes | 2 | 0 | 0 |
| 14 Feb. | “ Mary Jones for Thos. Evans | 1 | 0 | 0 |

Sundry payments ,77. 7. 6. including

| | | | |
|---|---|---|---|
| Paid Hugh Williams apprehending J. Thomas weaver | 0 | 7 | 9 |
| ” for Quashing Order of Removal at Beaumaris | 5 | 0 | 0 |
| ” John Pennie for Destroying Moles &c. | 5 | 0 | 0 |
| ” John Jones Bodiorwerth Law Expences | 13 | 0 | 0 |
| ” Notice to O. Jones & Robt. Wms. for not paying Rates | 0 | 6 | 0 |



| | | | |
|---|---|---|---|
| **/105/** Paid Owen Owens Holyhead law expences | 26 | 15 | 11 |
| ” Wm. Jones pauper of Nevin to go to his parish | 0 | 2 | 6 |
| ” Eliz. Daughter of Mary Jones journey to Liverpool | 0 | 10 | 6 |
| ” J. Jones Glazier Repairing Church Windows | 0 | 15 | 4 |
| ” Samuel Jones for getting the Church Bible Bound & Journey to Llangefni | 0 | 10 | 6 |
| ” Owen Roberts for being a Guardian | 1 | 10 | 0 |
| ” Making Lewis Owen & William Hughes Constables | 0 | 4 | 0 |
| ” For their Journey to Sarn fraint | 0 | 4 | 0 |
| ” Owen Jones Bryniau for repairing Poorhouses & Rent of House | 1 | 17 | 6 |
| ” Assistant Overseer’s salary for the year | 11 | 0 | 0 |
| ” making list of voters | 0 | 15 | 0 |
| ” making list of juries | 0 | 5 | 0 |
| ” making list of constables | 0 | 5 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Total receipts | ,525 | 5 | 6 |
| ” payments | £492 | 10 | 112 |
| Balance | ,33 | 14 | 62 |

DURING THE YEAR ENDING 25TH MARCH, 1847:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Paid Jane Griffith Caernarvon for Binding Bible & prayer book | 0 | 16 | 0 |
| “ John Pennie for destroying Moles | 5 | 0 | 0 |
| “ Magistrate’s Clerk appointing new Overseers | 0 | 2 | 0 |
| “ Magistrate’s Clerk signing 5 Rates | 0 | 5 | 0 |
| “ Magistrate’s clerk allowing irrecoverable Rates | 0 | 4 | 0 |
| “ Hum. Humphreys Cart & Horse to Newbro | 0 | 2 | 0 |
| “ Officers of Aberffraw, for Jane Jones pauper | 0 | 12 | 0 |
| “ Ann Thomas, relief | 0 | 1 | 0 |
| “ Hugh Lewis Removing Mary Griffith to Poorhouse | 0 | 1 | 6 |
| “ Ellen Hughes alias Jones relief | 0 | 3 | 0 |
| “ Carriage of Lettice Jones’s Furniture to Talfoel | 0 | 2 | 0 |
| “ “ over the Ferry | 0 | 1 | 0 |
| “ John Williams Tailor for making Clothes for Hugh Owen late at Frondeg | 0 | 5 | 5 |
| “ Hum. Humphreys conveying 3 paupers to Panton Arms Cart & Horse | 0 | 5 | 0 |
| “ T. Mason Barley per order of Vestry | 0 | 6 | 6 |
| “ Henry Parry for being Guardian | 2 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Received from the Furniture of the late | | | | |
| Mary Rowlands pauper | | 3 | 6 | 10**2** |
| “ Evan Williams Tynllidiart parish Property | | 0 | 10 | 0 |
| “ Wm. L. Ellis relief of Hugh Owen Tregaean | | 0 | 3 | 0 |
| /**106**/ Received from Morhesg &c. of Margt. Thomas | | 0 | 7 | 0 |
| “ Griff. Griffiths Penydref Rent of Tyddyn-bercyn | | 3 | 0 | 0 |
| Total recd, on Acct. of Parish Property | | ,17 | 6 | 10**2** |
| Total receipts | | ,425 | 13 | 4**2** |
| Total payments | | ,429 | 11 | 2**2** |
| Balance due to Collector | | ,3 | 17 | 10 |

DURING THE YEAR ENDING 25 MARCH 1848:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Paid | Owen Owens Holyhead: Bill for advice | 0 | 6 | 8 |
| “ | T. Roberts Blacksmith:s Bill for Grates &c | 0 | 7 | 8 |
| “ | John Jones for 3 Windows on Poorhouses | 0 | 9 | 6 |
| “ | John Jones Repairing Church Windows | 0 | 7 | 0 |
| “ | Owen Lewis mending Table, Bread | 0 | 2 | 5 |
| “ | Ebenezer Richards Bill for Bed Cords &c. | 0 | 2 | 1 |
| “ | Straining Warrant on Evan Wms. | 0 | 7 | 6 |
| “ | Thos. Mason for setting Grates & removing Jane Hughes & Ann Jones to Poorhouse | 0 | 8 | 0 |
| “ | Margt. Davies for Quiting House | 0 | 1 | 0 |
| “ | Two Orders of Removal Ellen Jones & J. Roberts | 2 | 6 | 0 |
| “ | Cart & Horse conveying same to Sarn | 0 | 5 | 0 |
| “ | “ Trefarthen | 0 | 2 | 6 |
| “ | Cwyfan | 0 | 5 | 0 |
| “ | “ body from seashore & mat to cover same | 0 | 5 | 6 |
| “ | for use of Tyddynpwrpas to keep Vestrys omitted in former acct. | 0 | 6 | 0 |
| “ | Serving Orders of Removal on Aberffraw & Cwyf(an) | 0 | 3 | 0 |
| Total receipts | | ,464 | 15 | 0 |
| Total payments | | ,466 | 0 | 7 |
| Bal. due to Parish Officer | | 1 | 5 | 7 |



Ym mhen arall y llyfr dechreuir cofnodion y cyfarfodydd. Dyfynnwn benderfyniadau o ddiddordeb ac, neu, o werth hanesyddol yng nghyfarfodydd y Festri, gyda dyddiad y cyfryw. Fel gyda pob dyfyniad, cedwir at yr orgraff wreiddiol.

“Penderfyniadau y Festri a gynhaliwyd 2ed Mawrth, 1847, mewn canlyniad I rybydd priodol ar ddrws yr Eglwys./**107**/

1. Bod I Wm Rowlands a Thos. Mason gael 2 gybynaid o haidd bob un er eu cynnorthwyo i gychwyn gyd ai gwaith yn y ffordd heuarn.[11]

3. [*sic*] Bod ir Swyddogion fyned i ymweled a Thyddynbercyn er bwrw golwg ar y draul oi repairs, a’i osod mewn trefn weddus yn ol natyr y release.

4. Bod Treth y person iw chwanegu yn ol y cytundeb rhwng y plwyf a’r person ac yn ol cyfartaledd y Tiroedd eraill yn y plwyf.

5. Penderfynwyd bod naw o ddynion I adolygu ansawdd y plwyf gyd a golwg ar Drethi y plwy, sef, bod 3 a 3 a 3, I gydgyfarfod a chael Llyfr Treth bob yn dri I weithredu arno, ac wedi gorphen eu hymchwiliad, I gyd-gyfarfod mewn Festri, er cymeryd y canol farn o’i Tri dosbarth fel rheol i gael y plwyf i wastadrwydd yn ei drethi. Y personau ydynt y rhai canlynol:-

| | | |
|---|---|---|
| Hugh Williams | Henry Parry | Griffith Griffiths |
| William Jones 1 | John Hughes 2 | William Jones 3 |
| Richard Jones | Morris Jones | Owen Roberts |

Bod canolbwynt yr amcan I fod Pendref, a gweithredu at hwnw (yn) ol eu gwybodaeth gydmariaethol am holl ffermydd y plwyf. Tystia ein llaw ar y dydd ar mis a nodwyd. I’w wneud mor fuan ag y bydd modd.

| | | |
|---|---|---|
| Hugh Williams | Richard Jones | John Hughes |
| Evan Williams | Samuel Jones | Griffith Griffiths |
| Owen Roberts | Hugh Lewis | Hum. Humphreys |
| Henry Parry | Owen Owens | Maurice Jones |

22 Ebr. 1847 - Humphrey Humphreys i gasglu trethi tlodion, y cyflog yn ,12; ‘os gwneith ei waith yn ei le i Gael ,13 y flwyddyn’.

25 Mai 1847 - Hum. Humphreys i ofalu ar repario Tai Tylodion ‘fel y byddont addas i Dylodion fyned iddynt I fyw, a darparu Ty Margaret Davies I fod yn dy talu.’

29 Meh. 1847 - ‘dau ddyn o Blwuf arall i Brisio Plwuf Newborough’.

27 Maw. 1849 - Resolved that Owen Roberts (Tyddyn) & Samuel Jones (Tynycoed) Overseers of the Poor go to Mr. Humphrey Owen Rhyddgaer[12] to

11 Gwnnethur y rheilffordd newydd o Fangor i Caergybi, mae’n debyg.

12 “Yn y flwyddyn honno [1850], ar un fordaith, cludai’r “Higginson,” llong yn perthyn i Mr. Humphrey Owen, Rhuddgaer, 141 o drigolion Môn a Meirion i’r Unol Dalaethau.”- *Hanes Mon*, gan E.A.W., tt. 129 - 130; *North Wales Chronicle*, 1850

Ascertain the lowest prise he will take Thomas Mason his Wife and Five children to America, that the Vestry unanimously are of opinion that it is their duty to send these family to America, and are willing to undergo the expence providing it be under Thirty three Pounds. John Hughes to be employed on the Parish Road and Quarry to do whatever the officers think proper, to rise the stones & break the /**108**/same at 7d. per Load, & the other work at so much per Rood, & to undergo the expences himself.

10 Apr. 1849 - John Hughes poorhouse and family to be sent to New York without delay & the Parish Officers to exert themselves to get money at lawful Interest to that purpose.

8 May 1849 - John Hughes and Thomas Mason to be employed on the Highway in the Parish, till they be ready to start for America, at 1/4 [7p] per day, or 10 **2** d [4d]. a Load for rising and mettling stones.

7 Aug. 1849 - The whole parish to be revalued (because of a general complaint that the ratepayers are not justly taxed to the Poor Rate) by 9 ratepayers:
1. John Hughes, Rhedyncoch; Evan Roberts, Plas; and Samuel Owen Tynycoed.
2. Hugh Lewis, Brynsink; Richard Jones, Bryniau; and Owen Roberts, Tyddyn.
3. Samuel Jones, Plasnewydd; Henry Parry, Cefnmawr; and Evan Williams,Tynllidiart. The three prises to be added together & divided by 3 & that to be the true return of the valuation for the new assessment. Frondeg uchaf to be taken as a Standard farm to bring the parish in comparison to it, to be rated on the Gross Rent now paid to the Landlord.

12 Feb. 1850 - Edward Parry, Myfyrian; Mr. John Jones, Bodowen; Mr. Thomas Lewis, Ty Mawr, Aberffraw; & Mr. Richard Jones, Trefrew to value or adjust the Poor Rate of this Parish.

23 Maw. 1854 - Tai a adwaenir wrth yr enw Tai Tylodion i gael eu gwerthu i'r cynhygydd uchaf, a'r arian, gyda chanitant (*sic*) y *Poor Law Commissioners*, i'w defnyddio er lleihau dyled y plwyf.

19 Maw. 1857 - Penderfynwyd fod i'r swm o un Bunt deunaw swllt a chwech cheiniog o drethi ar y Felinwynt tra yn wag yn ystod y flwyddyn bresennol gael eu maddeu.

24 June 1850 - The following to value the parish:
Owen Hughes, Cefnmawr; John Prichard, Rhedyncochmawr; Owen Williams, Frondeg; Samuel Jones; Henry Prichard, Brynia; William Hughes, Tyngoeden; Samuel Owen, Tynycoed; Thomas Jones, Gwningarbach ; Griffith Jones, Maesyceirchdir.

6 May 1861- Rate to be at 1/6 in the , . The Rate to be made on the basis of Owen Jones and Edward Parry's valuation.



21 Awst 1861 - Penderfynwyd maddau trethi - y swm o ,1 15. 4. o herwydd ei afiechyd a Dlodi.

19 Rhag. 1862 - "To the Magistrates of the County of Anglesey.
May it please your Worships We the undersigned, being Rate-payers in the Parish of St. Peters Newborough Mos(t) respectfuly [sic] beg to inform your Worships that in our opinion the proposed new High Way Act (so far as we are acquainted with its meaning) will greatly augment the burden of the Rate- /**109**/payers and at the same time deprive them of every comptrol or power to check the Expen(n)diture &c. &c. We therefore trust your Worships will use your influence against the adoption of such proposed Evil.
Your Worships
Obedient Servants
Decr. 19, 1862

2 Dec. 1863 - The parish to be revalued to obtain a just and proper assessment for poor and other rates in the parish. Houses and land belonging to the poor of the parish to be sold by public auction & the Board of Guardians at Carnarvon to be notified of this.
St. Peter's Newborough.
To the Assessment Committee at Carnarvon
Gent.
At a Vestry held here this day it was unanimously agreed upon to memorialize your Board for consent to revalue the parish being fully aware that the Rates are very unequal. The present Valuation has been before a Vestry held here some time ago when it was rejected, and there and then decided upon to make a New Valuation by 9 of the Rate Payers, instead of which the Overseers for the time being Sent you the List unknown to the majority of the Parish.We trust that you will be pleased to take our Case into consideration as we consider ourselves greatly oppressed. Dated this 8th day of June 1864.
Griffith Jones, Chairman.
*(Yn y fan hyn mae dalen wedi ei thorri allan o:r Llyfr).*

1 July 1864 - The parish to be revalued.

19 July 1864 - The following to revalue the parish:
Owen Roberts, Maesyceirchdir; John Prichard, Rhedyncoch; Richard Hughes, (? Cefnmawr); Samuel Jones, Plasnewydd; Hugh Lewis, Brynsinc.

21 Mar. 1865 - Forms for Highways filled and signed by the Chairman as required by the Statute.

4 Apr. 1865 - Highway rate to be 6d. in the £.

20 Mar. 1866 - The parish property to be sold & the proceeds to be appropriated in aid of the erection of a school & the following gentlemen to be formed into a committee to carry out the resolution Rev. D. Jeffreys, Rector; Hugh Hughes, Esq., Cefnmawr; Robert Jones, White Lion; Mr. Jones, Maesyceirchdir; Capt. Jones, Bod Iorwerth; Mr. John Prichard, Rhedyncoch; William Jones, Bryniau; Griffith Griffiths; Robert Jones, Caeaubrychion; William Roberts & Samuel Roberts.

19 Feb. 1867 - The parish to be canvassed as to whether they wanted a Parochial or a British School./**110**/

19 Maw. 1867 - Y personau (*enwir* 10) canlynol i ymgyfarfod ar fore y 26 cyfisol am 7, a cherdded trwy y plwyf er gallu dwyn cynllyn i'r Festri nesaf gyd a golwg ar ddinystrio y Tyrchod. Maddeu trethi i 3; "am y tro hwn yn unig y maddeuir dim o'r trethi."

24 Maw. 1868 - Swyddog y ffordd fawr i ofalu am agor Traen digonol a phriodol i gario y Dwfr sydd yn awr yn Nuisance yn Church Street ar Groes, y rhediad i fod i lawr at Gate Bodiorwerth.

4 June 1868 - 4 (?) pieces of Land call'd Bailiffs Quillet containing a quarter of an acre or thereabouts together with the thirteen cottages erected thereon to be sold and apply the purchase money to enlarge the churchyard, which is very much wanted.

19 Maw. 1869 - Y cyflog presenol o ,4 i Arolygwyr y ffordd fawr iw rannu rhyngddynt, a phob diwrnod y byddo troliau ar y ffordd bod y ddau swyddog i gael cyflog fel y gweithwyr eraill. Lon Rhosyraur i gael ei ehangu. Treth o 6d. y , i'w chodi.
(*Dalen wedi ei thorri allan*).

6 Chwef. 1871 - Gohirio am flwyddyn ystyried pwnc addysg, gyda golwg ar fabwysiadu y ddeddf newydd.

19 Mar. 1873 - William Evans Tyddynpercyn to be Sexton, after the late Thomas Rowlands.

8 Sept. 1874 - Non-settled paupers' relief list approved. The poorhouses known as Rhenc newydd to be sold & the monies used to enlarge the churchyard.

11 Mar. 1875 - 24 persons to be incorporated in a bond securing the amount of ,48 towards carrying on the school now in existence by each subscribing ,2 annually by quarterly instalments to the appointed Treasurer.

19 Mar. 1875 - The ratepayers & not the 24 Bondsmen to be qualified to elect the Chairman and vice-Chairman of their Committee.

15 Dec. 1876 - The water of the well - "Ffynnon-dwr-cloddiau" - in Cae Ffynnon, Bod Iorwerth to be drawn into the High road by means of a drainage, properly piped, & a cistern to be placed to hold water for the convenience of those concerned.



14 Mar. 1878 - Rhenc newydd or Bailiffs Quillet to be sold; with the money thus obtained to buy a plot of land for a Burial Ground, one half for the Church & one half for the Nonconformists

28 Mar. 1878 - Money from the sale of Rhenc newydd to be used to enlarge the Parish churchyard.

21 Mar. 1879 - R. P. Jones to be clerk of the Vestry & the Vestry book to be in his custody. Money from the sale of Rhenc newydd to be divided between the Church & Nonconformists to extend their respective burial grounds.

20 Feb. 1880 - Use the money to buy a Cemetery to be equally divided between the Church & Nonconformists, the same to be properly walled round & a Dead House built thereon.

10 Chwef. 1881 I ffurfio Bwrdd Claddu a hwnnw i brynu mynwent gyda'r arian./**111**/

22 Mar. 1881- A Burial Board of 9 elected. A deputation was appointed to seek Lord Newborough's guidance and advice.

28 June 1881 - 5 Members appointed to form a School Board for the next 3 years: H. O. Hughes, Cefnmawr; Thomas Thomas, Caecoch; Hugh Evans, Chapel Street; David Evans, White Lion & R. P. Jones, Cambrian House. The retiring Board were thanked for their services.

21 Mar. 1883 - The walls of the old churchyard to be repaired by voluntary subscriptions. 4 excused their rates.

11 Nov. 1884 - Supported the proposal for removing the County business from Beaumaris to Llangefni.

19 Mar. 1885 - A1l expenses in connection with the new cemetery now paid. A formal protest was made against the Magistrates' refusal to vote for the removal of Quarter Sessions to Llangefni, when two-thirds of the jurors & vestries, representing about 40,000 inhabitants, had voted for it.

4 Aug. 1893 - The Poor Rates of the parish to be the guarantors to the General Post Office in the laying of the telegraph wire to Newborough & Dwyran, the sum specified for the parishes being £53.

Yn 1894 y cysylltwyd Llythyrdy Niwbwrch i Llythyrdai eraill gyda'r teligraff, ac yn fuan iawn ar ôl hynny gosodwyd y teliffon rhwng Niwbwich a Llanddwyn.

CYFARFODYDD PLWYFOL (1894 - 1900)

Pan ddaeth *Deddf Llywodraeth Leol* i rym yn 1894, gosodwyd materion y plwyf - ar wahan i faterion yr eglwys fel y cyfryw - dan reolaeth corff newydd, sef y Cyngor Plwyf, yn cynnwys 15 o aelodau. Etholwyd y rhai hyn mewn cyfarfod cyffredinol o'r plwyfolion ar Rhagfyr 4, 1894. Mr. Hugh Evans, Chapel Street, a ddewiswyd yn Gadeirydd; Capten Robert Roberts, Talybraich, yn is-Gadeirydd; Mr. Lewis Lewis, Brynsinc, yn Ysgrifennydd a'r pedwar hyn yn *Overseers* y Tlodion: Mri. T. Thomas,

Caecoch; G. R. Jones, Maesceirchdir; Thomas Hughes, Coedanna; a Hugh Hughes, Bryn Golau.

Etholid cyngor newydd bob mis Mawrth, a diwedda'r cofnodion yn y llyfr hwn gyda chyfarfod 1903. Byr yw'r adroddiad o'r cyfarfodydd, ond ceir rhai penderfyniadau o ddiddordeb.

Un o reolau cyntaf y Cyngor oedd "Bod holl weithrediadau y Cynghor a'r cofnodion hyd y gellid i fod yn Gymraeg". Pa sawl un o'r aelodau oedd yn deall cofnodion Saesneg y Festris gynt? Eithr gofalai y Parch. D. Jeffreys bron yn ddieithriad am gael y cofnodion yn Gymraeg.

1895 - **,**7 wedi eu derbyn drwy'r Parch. William Jones,
Tyddyn pwrpas fel rhent am y fynwent o 1887 i 1894.
Maddeuwyd holl ô1-ddyledion Treth y ffordd fawr.
Pendodwyd yr *Overseers* yn Ymddiriedolwyr dros
Dir y Tlodion /**112**/

Yn ystod yr un flwyddyn gwnaed amryw geisiadau i'r Cyngor Plwyf am randiroedd. Anfonwyd at W. H. Owen, Ysw., Plas Penrhyn, i ofyn iddo am 37 acer o dir Clynnog ym mhlwyf Niwbwrch. Wrth ateb eglurodd ef fod y rheini yn rhedeg yn anwastad drwy ffarm Clynnog, ond ceisiodd ef eu cyfarfod ond i'r Cyngor apelio hefyd at dirfeddiannwyr mawr eraill yn y plwyf, sef yr Anrhyd. Frederick Wyn ac Arglwydd Boston. Cynigiodd osod 16 acer o'r ochr nesaf i blwyf Niwbwrch, sef ochr yr Erw hirion i lawr hyd 1ôn Llangeinwen, ond rhaid fyddai codi gwal ar hyd yr ochr derfyn. Wedi ystyried y gôst hon, gohiriwyd y mater.

/**113**/SWYDDOGION PLWYFOL (1846 -1894)

| | Wardeniaid yr eglwys | Arolygwyr y tlodion | Arolygwyr y ffordd fawr | Gwarcheidwad y tlodion | Cwnstabliaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 1846 | | | | O.Roberts Tyddyn | Lewis Owen a William Hughes |
| 1847 | G.Griffiths Pendref W.Jones Warehouse | Gr. Jones Maes' dir Morris Jones Caeaubrychion | Hy. Parry Cefnmawr O.Roberts Tyddyn | J.Hughes Rhedyncoch | |
| 1848 | | Samuel Owen Tyncoed O.Roberts | Hy. Parry Cefnmawr W.Jones | Gr. Jones Maes' dir | |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Tyddyn | Warehouse | | |
| 1849 | Humphrey Humphreys Hugh Williams | O.Williams Frondeg isaf Rld. Williams America | Samuel Owen John Hughes | | |
| 1850 | | Samuel Roberts Plas. Hy. Lewis Caergors | Samuel Owen John Hughes | Hy. Parry | |
| 1851 | | | Hy. Morris Hendrefawr | | |
| 1852 | Samuel Jones J.Prichard Rhedyncoch | Margr. Williams Frondeg isaf Gr. Griffiths Owen Williams Frondeg isaf (cynorthwyol) | Sam Owen | D.Jeffreys Robt. Hughes Tyddyn-pwrpas | O.Williams (cynorthwyol) |
| /**114**/1853 | Hy. Parry J.Prichard | Enwi 11[13] | Gr. Jones | D.Jeffreys | |
| 1854 | Thos. Edwards Tymain Sam Jones Plasnewydd | Gr.Jones Hugh Lewis Brynsinc | Sam Owen | D.Jeffreys J.Prichard (cynorthwyol) | |
| 1855 | Wm. Jones Sam.Jones | (*enwi*) 6 | Sam Owen | J.Prichard Gr.Jones | |
| 1856 | O.Williams Frondeg Sam Jones | 8 | do. | J.Prichard | |
| 1857 | Wm.Jones Morris Jones | 6 | Robert Hughes | Gr. Griffith | |
| 1858 | Wm. Jones Sam Jones | 6 | Sam Owen Wm. Tthomas Cae Coch | J.Prichard | |

13 Daeth yn arferiad i'r Festri enwi nifer swydd, a'r Ynadon i benodi dau ohonynt. Yn y cofnodion o 1855 i 1863, ceir rhestr o'r rhai a enwyd, ond nid o'r rhai a benodwyd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1859 | -<br>Sam Jones | 7 | | Sam Owen | |
| 1860 | T. Williams<br>Tymwdwal<br>O.Hughes<br>Cefnmawr | 9 | Wm.<br>Thomas<br>Tylawr | do. | |
| 1861 | do. do. | 6 | Wm.<br>Thomas<br>Caecoch | do. | |
| 1862 | T.Williams<br>Rid. Williams | 7 | Sam Owen<br>Wm.<br>Thomas | Sam Jones | |
| /**115**/1863 | T.Williams<br>Sam Jones | 9 | Wm.<br>Thomas<br>Caecoch | Sam Owen | O.Williams<br>Tynllidiart<br>T.Edwards<br>Tymain |
| 1864 | | | | | |
| 1865 | Gr. Griffiths<br>Wm. Jones<br>Bryniau | J.Prichard<br>O.Williams<br>Frondeg | Wm.<br>Thomas<br>Tylawr or<br>Llwyn<br>ysgaw | Sam Jones | Wm. Evans<br>Malltraeth St.<br>O.Williams<br>Tynllidiart |
| 1866 | Gr.Griffiths<br>Wm. Evans<br>Shop | Gr.Jones<br>Hugh Lewis | J.Prichard | do. | O.Williams<br>Tynllidiart<br>Daniel Hughes<br>Tyddyntlodion |
| 1867 | Capt. J.Jones<br>Bod Iorwerth<br>O.Williams<br>Frondeg | H.Hughes<br>Cefnmawr<br>Wm. Thomas<br>Tylawr | do. | do. | do. do. |
| 1868 | do. do. | 7 | do. | do. | do. do. |
| 1869 | Capt. J.Jones<br>Jos. Roberts<br>Tyrallt | 6 | Owen<br>Owens<br>Rhouse<br>Robt.<br>Roberts<br>Hendy | Robert Jones<br>caeaubrychion | Daniel Hughes<br>Cefnmawruchaf |
| 1870 | Capt. J.Jones<br>Capt. Rt. | Gr. Griffith<br>R.P. Jones | Owen Evans<br>Hugh Evans | Gr. Jones | do. do. |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Roberts<br>Plasnewydd | Cambrian<br>House | Chapel St. | | |
| 1871 | | | | | |
| 1872 | Capt. J.Jones<br>J.Prichard | Capt.<br>R.Roberts<br>Wm. Jones<br>Bryniau | O.Owens<br>T.Thomas<br>Caecoch | Sam Owen | W.Evans<br>Tyddynpercyn<br>O.Williams<br>Tynllidiart |
| /**116**/1873 | Capt. J.Jones<br>Sam Jones<br>Mill Bank | Capt.<br>R.Roberts<br>Wm. Jones<br>Bryniau | Gr. Jones<br>Wm. Evans<br>Caecrwn | Sam Owen | |
| 1874 | Capt. J. Jones<br>Wm. Thomas<br>Tylawr | Capt.<br>R.Roberts<br>Chas. Hughes | Wm.<br>Hughes<br>Tyngoeden<br>Rt. Williams<br>Tyncae | Gr. Jones | |
| 1875 | Capt. J.Jones<br>J.Prichard | T.Griffiths<br>Clynog<br>Rt. Jones<br>Caeaubrychion | Wm. Jones<br>Tirbodfel<br>Rt. Owen<br>Cerrigmawr | do. | |
| 1876 | do. do. | do. do. | do. do. | do. | |
| 1877 | Capt. J.Jones<br>Wm. Jones<br>Bryniau | Wm.<br>Griffiths<br>Pendref<br>Capt.<br>R.Roberts | O.Evans a<br>Hugh Evans<br>Chapel St. | do. | |
| 1878 | | Capt.<br>R.Roberts | | do. | |
| 1879 | Sam Roberts<br>Brondderwydd<br>Rd. Hughes<br>Cefnmawr | 6 | Wm. Jones<br>Tirbodfel<br>Rt. Roberts<br>Brynhowydd | do. | (*Clerc y Festri*)<br>R.P.Jones |
| 1880 | Rd. Hughes<br>Cefnmawrisaf | 6 | do. do. | do. | |
| 1881 | Sam Roberts<br>Ed. Jones<br>Shop Sharp | 6 | Wm.<br>Williams<br>Bryn hyfrd a<br>Parcmawr | R.P.Jones | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | H.Hughes<br>Plas<br>Pydewau | | |
| /**117**/1882 | Wm. Jones<br>Bryniau<br>O.Jones<br>Tyddyn | 6 | do. do. | do. | |
| 1883 | do. do. | 6 | do. do. | do. | |
| 1884 | do. do. | 6 | do. do. | do. | |
| 1885 | do. do. | 4 | W.Williams<br>Brynfelin | Capt.<br>R.Roberts | |
| 1886 | Hy. Williams<br>Brynhyfrd<br>O.Jones<br>Tyddyn<br>(Tylawr) | 4 | do. do. | do. | |
| 1887 | do. do. | 4 | Wm.<br>Griffith<br>Pendref<br>Capt.<br>R.Roberts | Gr. R.Jones<br>Maes' dir | |
| 1888 | - | 4 | T.Thomas<br>Caecoch | do. | |
| 1889 | Hy. Williams<br>O.J.Jones | 5 | do. do. | do. | |
| 1890 | -<br>O.J..Jones | 5 | do. do. | do. | |
| 1891 | -<br>O.J.Jones | 4 | H.Lewis<br>Tyncoed<br>Josiah<br>Hughes<br>Tyngoeden | do. | |
| /**118**/1892 | T.Thomas<br>Caecoch<br>Owen Owens<br>Penybonc | 4 | H.Lewis<br>Tyncoed<br>Josiah<br>Hughes<br>Tyngoeden | Gr. R. Jones<br>Maes' dir | |
| 1893 | do. do. | 6 | J.Williams<br>Cefnbychan | do. | |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | W.Evans<br>Tyddyn-<br>berkin | | |
| 1894 | H.Jones<br>Bodiowerth<br>T.Thomas | 6 | J.Williams<br>Cefnbychan<br>W.Jones<br>Tirbodfel<br>/**119**/ | do. | |